



**CYNGOR CAERDYDD  
CARDIFF COUNCIL  
Adroddiad Blynyddol i  
Aelodau Etholedig 2018  
Annual Report for Elected  
Members 2018**

**Cynghorydd / Councillor: Nigel Howells    Plaid/ Party: Democratiaid  
Rhyddfrydol Cymru**

**Ward: Adamsdown                      Etholwyd yn Gyntaf/ First Elected: 6 Mai 1999**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn ddinesig 2017/2018 a ddaeth i ben ar 24 Mai 2018. Diben yr adroddiad yw rhoi gwybodaeth i'r holl etholwyr a dim byd arall.

**Adran 1: Rolau a Chyfrifoldebau**

Rwy'n falch o gael cynrychioli trigolion Adamsdown ar Gyngor Caerdydd, ac rwyf wedi gweithio'n galed i gyfleu eu safbwyntiau a'u pryderon i'r Cyngor ar faterion yn cynnwys cynllunio, priffyrdd, sbwriel, a blaenoriaethau trigolion ers cael fy ethol.

Yn ogystal â'm rôl fel Cynghorydd Ward, rwyf yn gwasanaethu fel Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar yr Economi a Diwylliant. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae fy mhwyllgor wedi craffu ar faterion gan gynnwys llyfrgelloedd a hybiau, yr orsaf fysiau ganolog newydd arfaethedig, dysgu i oedolion a chwaraeon yng Nghaerdydd. Rydym hefyd wedi mynd ati i roi'r dasg i weithredwyr newydd canolfannau hamdden Caerdydd ar amrywiaeth o faterion a godwyd gan drigolion ledled ein dinas. Yn ddiweddar, arweiniais ymchwiliad gorchwyl a gorffen i ariannu ein parciau a oedd, ymhlith pethau eraill, yn argymhell mwy o arian i Geidwaid y Parciau.

Rwyf hefyd yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Pensiynau.

Gellir gweld y Cofnod Presenoldeb yma: [Presenoldeb](#)

Gellir gweld y Cofnod Dysgu a Datblygu yma: [Dysgu](#)

**Adran 2: Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi trin cannoedd o faterion gwaith achos y tynnwyd fy sylw atynt gan y trigolion yr wyf yn eu cynrychioli. Roedd y materion a godwyd yn amrywiol ond roedd y tri phrif fater fel a ganlyn:

**Casgliadau sbwriel, glanhau strydoedd a thipio anghyfreithlon**

Rwy'n adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Cyngor am lendid ein strydoedd a materion taflu sbwriel. Rwyf hefyd wedi codi'r mater o sbwriel yn cael ei adael mewn iardiau blaen fflatiau, eiddo sy'n cyflwyno sbwriel ar y diwrnod anghywir a sbwriel sy'n cael ei adael yn ein lonydd.

### **Problemau parcio**

Gan ei fod mor agos i ganol y ddinas, mae Adamsdown yn dioddef o gryn dipyn o barcio cymudwyr. Rwyf wedi llobio'r Cyngor ar gyfer mwy o fannau parcio i breswylwyr yn yr ardal, yn enwedig ar y strydoedd hynny, megis Zinc Street, nad oes ganddynt hynny ar hyn o bryd.

### **Cynllunio**

Bu nifer o geisiadau cynllunio lle rwyf wedi cynrychioli trigolion yn y Pwyllgor Cynllunio. Yn arbennig, siaradais ar ran trigolion yn gwrthwynebu datblygiadau yn hen dafarn y 'Canadian' ar Pearl Street, a'r hen lawnt fowlio yn Howard Gardens. O ran yr hen lawnt fowlio, arweiniodd y cynnig hwn at nifer sylweddol o wrthwynebiadau gan drigolion a oedd yn ymwneud ag erydu manau gwyrdd gwerthfawr yng ngorllewin Adamsdown.

### **Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf yn gwasanaethu fel Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Adamsdown ac fel Is-gadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Stacey.

Mae'r ysgolion hyn wedi perfformio'n arbennig dros y flwyddyn ddiwethaf, gydag Ysgol Gynradd Adamsdown yn benodol yn dangos gwelliant sylweddol, er gwaethaf yr heriau o ehangu i ysgol fynediad dau ddsbarth mynediad.

Yn y Cyngor, rwyf wedi galw am gamau gweithredu i leihau llygredd o amgylch ysgolion cynradd yr ardal sy'n eistedd wrth ymyl rhai o'r ffyrdd sydd â'r mwyaf o dagfeydd yng Nghaerdydd.

Rwyf wedi bod yn gefnogwr brwd i Ganolfan Ddydd Adamsdown, gan gydnabod ei rôl yn cefnogi'r henoed yn fy ardal. Pan gynigiodd y Cyngor ei gyllideb ddiweddaraf, pleidleisiais am arian i gefnogi Canolfannau Dydd megis Adamsdown.

Ar ôl cau Llyfrgell y Rhath, rwyf wedi cefnogi cais gan Rubicon Dance i gymryd yr adeilad drosodd er mwyn ehangu eu darpariaeth yn yr ardal. Byddaf hefyd yn craffu ar y cynlluniau ar gyfer yr hen Gapel yn y CRI er mwyn sicrhau y gellir manteisio i'r eithaf ar wasanaethau llyfrgell yn y lleoliad hwn pe bai cynlluniau ar gyfer caffï a llyfrgell yn cael eu cymeradwyo.

Rwyf hefyd wedi cefnogi bidiau No Fit State Circus a Chanolfan Ddydd Adamsdown i sicrhau cymorth grant.

### **Gweithgareddau/Materion Eraill (dim mwy a 100 o eiriau)**

Rwy'n cymryd rhan reolaidd mewn sesiynau casglu sbwriel wedi'u trefnu gan Cadwch Adamsdown yn Daclus. Rwyf hefyd wedi mynychu cyfarfodydd PACT lleol yn rheolaidd, ac rwyf wedi gweithio gyda'r heddlu lleol ar nifer o faterion.

Mae swm sylweddol o arian ar gael ar gyfer gofod cymunedol o fewn Adamsdown ac rwyf ar hyn o bryd yn gweithio gyda staff yn yr Adran Parciau i weld pa welliannau y gellir eu gwneud i barciau a manau gwyrdd yn yr ardal, gan sicrhau bod barn preswylwyr yn cael ei chlywed.

Rwyf hefyd wedi sicrhau bod trigolion yn Anderson Place a Galston Street wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad i wella eu hamgylchedd lleol.

**Y Cynghorydd Nigel Howells**